

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI



**ADRODDIAD YMGYNGHORI:
CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL:
5) Rhwymedigaethau Cynllunio**

Cynnwys

1	CEFNDIR.....	Error! Bookmark not defined.
	Y Cyd-destun Polisi.....	Error! Bookmark not defined.
	Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol	Error! Bookmark not defined.
2	YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS	Error! Bookmark not defined.

[ATODIAD A: Crynodeb o'r Sylwadau a dderbyniwyd a'r ymatebion](#)

1 CEFNDIR

Y Cyd-destun Polisi


- 1.1 Mabwysiadodd yr Awdurdod Gynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLIE) 2016-2031 ar 6 Chwefror 2019. Mae CDLIE 2016-2031 yn cynnwys Polisiâu Strategol a Pholisiâu Datblygu fel sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae dogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn darparu gwybodaeth fanwl bellach, i gefnogi polisiâu'r CDLIE.
- 1.2 Bydd CCA yn ystyriaethau cynllunio perthnasol yn ystod y broses o asesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi cryn bwys ar ganllawiau cynllunio atodol sy'n deillio o'r CDLIE, ac sy'n gyson â'r CDLIE. Dylai CCAu ehangu a dehongli polisiâu cynllunio ac nid ynddynt eu hunain, ffurfio meysydd polisi newydd.

Yr angen am Ganllawiau Cynllunio Atodol

- 1.3 Fel rhan o'r rhaglen dreigl o baratoi ac adolygu CCA, ac ar ôl mabwysiadu CCA 4: Tai Fforddiadwy, ystyriwyd bod angen diweddarau CCA 5: Rhwymedigaethau Cynllunio i adlewyrchu canllawiau Cenedlaethol a Lleol cyfoes.
- 1.4 Ychydig iawn o welliannau a wnaed i'r CCA gwreiddiol gan fod y ddogfen yn seiliedig i raddau helaeth ar ganllawiau'r llywodraeth sydd wedi'u cynnwys yng nghylchlythyrau 13/97 Rhwymedigaethau Cynllunio. Mae'n egluro bod rhwymedigaeth gynllunio fel arfer yn ymwneud ag agwedd ar ddatblygiad na ellir ei sicrhau trwy osod amod cynllunio neu drwy reolaethau statudol eraill. Bwriad y rhwymedigaeth, neu a elwir yn fwy cyffredin yn gytundeb adran 106, yw sicrhau mesurau neu gyfraniadau i fynd i'r afael ag effaith debygol datblygiad arfaethedig ar seilwaith ffisegol neu gymdeithasol yr ardal. Gall rhwymedigaethau cynllunio wella datblygiad a'i helpu i fynd ymlaen ac wrth fynd i'r afael â'i effeithiau ar ardal a gellir ei ystyried yn fuddiol yn lleol i les eraill. Yn achos y Parc Cenedlaethol, defnyddir rhwymedigaethau cynllunio yn ehangach i sicrhau bod tai fforddiadwy yn cael eu cadw ar gyfer y rhai mewn angen ac i sicrhau symiau cymudo sy'n gysylltiedig â thai fforddiadwy.
- 1.5 Mae'r CCA yn egluro bod yn rhaid i gytundeb rhwymedigaeth fod yn angenrheidiol, yn berthnasol i gynllunio, yn gysylltiedig â'r datblygiad sy'n cael ei ystyried a'i fod yn deg ac yn rhesymol. Er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n helaeth i sicrhau tai fforddiadwy, gellir cymhwysu rhwymedigaethau i unrhyw ddatblygiad lle mae'n bosibl na fydd amod cynllunio yn berthnasol. Mae'r tabl ym mharagraff 6.4 yn rhoi enghreifftiau o'r math o rwymedigaeth a allai fod yn briodol a'r nod (y mae'n rhaid ei gysylltu â materion cynllunio) y tu ôl i sicrhau cyfraniad ariannol neu waith ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad. Gan fod y rhan fwyaf o gyfraniadau ariannol yn cael eu sicrhau o brosiectau tai fforddiadwy, mae Atodiad 3 - "Canllawiau Swm Cymudo Tai Fforddiadwy" yn nodi mentrau penodol y gellid eu hariannu gan ddefnyddio'r cronfeydd hyn.

2 YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

- 2.1 Cymeradwyd fersiwn ddrafft o'r CCA hwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gan Bwyllgor Cynllunio a Mynediad yr Awdurdod ar Fedi 2il 2020. Paratowyd y drafft mewn ymgynghoriad â swyddogion o Adran Rheoli Datblygu'r Awdurdod, a gwnaed cwpl o fân newidiadau fel yr awgrymwyd gan Aelodau.
- 2.2 Roedd drafft cymeradwy'r CCA hwn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 8 wythnos rhwng 18 Medi 2020, a'r 13eg Tachwedd 2020.
- 2.3 Roedd manylion yr ymgynghoriad cyhoeddus ar gael ar wefan yr Awdurdod, ac anfonwyd e-byst / llythyrau at yr holl Gynghorwyr, Cynghorau Cymunedol, a'r rheini ar Gronfa Ddata Gyswilt yr Awdurdod. Oherwydd amgylchiadau a rheoliadau COVID-19, ni anfonwyd copïau caled o'r CCA i lyfrgelloedd cyhoeddus na Chanolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod, ond anfonwyd copïau caled at y rhai a ofynnodd am gopi.
- 2.4 Hysbyswyd partïon â diddordeb i ymateb i'r ymgynghoriad trwy gyflwyno sylwadau trwy e-bostio polisi.cynllunio@eryri.llyw.cymru neu trwy'r post i gyfeiriad Swyddfa Parc yr Awdurdod ym Mhenrhyndeudraeth.
- 2.5 Derbyniwyd cyfanswm o 5 sylw, roedd 5 o'r rhain yn gwrthwynebu.



- 2.6 Mae Atodiad A yr adroddiad hwn, yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd, ymateb yr Awdurdod i'r sylwadau a, lle bo hynny'n briodol, yn argymhell unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i'r CCA o ganlyniad i'r sylw.

Atodiad A: Crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd ac argymhellion swyddogion

ID Yma	ID Cynr	Sefydliad	Pennod	Rhif Paragraff	Math o sylwad	Crynodeb Swyddog	Ymateb Swyddog	Newidiadau a Gynigir
001	001	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi	Gweithdrefnau ar gyfer Negodi Rhwymedigaethau Cynllunio	8.4	Gwrthwynebu	Yn ystyried y byddai'n ddefnyddiol nodi cost debygol o ran cytundebau A106.	Mae'r Awdurdod fel arfer yn codi ffi o £300 + TAW am bob contract; fodd bynnag, gall y ffigur hwn newid, yn enwedig wrth ddelio â chontractau mwy cymhleth. Felly ni ystyrir ei bod yn briodol cynnwys cost debygol o ran cytundebau A106 yn y CCA.	Ni chynigir newidiadau
002	001	Cyfoeth Naturiol Cymru	Mathau o rwymedigaeth - unochrog a dwyochrog	5.2	Gwrthwynebu	Cynnig pwyntiau bwled ychwanegol i'w cynnwys ynghylch yr amgylchiadau y bydd APCE yn ceisio negodi rhwymedigaethau ar geisiadau cynllunio unigol. Mae'r pwyntiau bwled hyn yn cynnwys; <ul style="list-style-type: none"> Sefydlu system ar gyfer coladu a dosbarthu adnoddau ariannol ar gyfer rheoli safleoedd seilwaith gwyrdd / lliniaru ar gyfer rhywogaethau. Angen bondiau wrth gefn Cyfyngu perchnogaeth 	Wrth adlewyrchu systemau cyfredol sydd ar waith mewn perthynas â'r amgylchiadau pan fydd APCE yn ceisio negodi rhwymedigaethau ar rwymedigaethau cynllunio unigol, ystyrir bod paragraff 5.2 yn addas at y diben mewn perthynas â'r pwyntiau bwled ychwanegol arfaethedig.	Ni chynigir newidiadau
002	002	Cyfoeth Naturiol Cymru	Mathau o ddatblygu a nodau cynllunio	Tablau yn Adran 6	Gwrthwynebu	Cynnig diwygiadau a chynnwys rhwymedigaethau cynllunio ychwanegol, er enghraifft; <ul style="list-style-type: none"> Creu cynefinoedd Safleoedd heb eu dynodi a / neu gynefinoedd a rhywogaethau ategol a restrir o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Darpariaeth draeniad budr priodol Defnydd cynaliadwy o adnoddau dŵr Darpariaeth ar gyfer Gwneud Lle Mesurau iawndal neu liniaru llifogydd 	Nodwyd. Felly cynigir diwygiadau o fewn gofynion a fformat y tabl.	Newidiadau arfaethedig / a gynigir yn Ffigur 1.
002	003	Cyfoeth Naturiol Cymru	Cynnwys y Rhwymedigaeth Cynllunio	9.2	Gwrthwynebu	Cynnig cynnwys gofynion pellach yng nghydestun rhwymedigaethau cynllunio ecoleg megis;	Wrth adlewyrchu systemau cyfredol sydd ar waith mewn perthynas â'r	Ni chynigir newidiadau

					<ul style="list-style-type: none"> • Wardeinio • Newidiadau deiliadaeth arfaethedig • Trefniadau cyllido e.e. swm cymudo a / neu orfodi taliadau gwasanaeth rhent daear cysylltiedig â mynegai • Cyswllt â chytundebau eraill e.e. Adran 16 neu 39 Cytundebau rheoli (Adran 16 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac Adran 39 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000) • Bondiau • Cytundebau rheoli tymor hir (e.e. Adran 39 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) 	gofynion yng nghyd-destun rhwymedigaethau cynllunio ecoleg, ystyrir bod paragraff 9.2 yn addas at y diben, lle rhoddir sylw i'r materion hyn, ac ni fyddant yn eithrio polisi a chanllawiau yn y dyfodol.	
003	001	Grŵp Cynefin	Atodiad 4	Gwrthwynebu	Cynigir newid yr ardaloedd fel y nodwyd yn y copi o'r cytundeb adran 106 safonol drafft ar dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol ardaloedd Cyngor Cymuned, ardaloedd Cynghorau Cymunedol Cymdogol a'r Sir, ynghyd â cheisio cymeradwyaeth gan APCE i symud o un ardal i un arall i ddarparu gwell eglurhad.	Gan fod adran 106 safonol yn cydymffurfio â pholisi, byddai'n rhaid ystyried unrhyw welliannau fel rhan o'r adolygiad nesaf.	Ni chynigir newidiadau

Ffigwr 1:

<p>Cadw a gwella parthau o fannau agored, cynefinoedd naturiol a choed, <u>gan gynnwys creu cynefinoedd</u></p>	<p>I sicrhau bod cynefinoedd bywyd gwyllt yn cael eu creu a'u cynnal</p>
<p>Diogelu neu leihau'r niwed i safleoedd cadwraeth ddynodedig ac safleoedd cadwraeth heb ei ddynodi, neu safleoedd sy'n cynnal cynefinoedd a rhywogaethau a restrir o dan Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.</p>	<p>I gynnal bioamrywiaeth</p>
<p><u>Darparu dull draenio dŵr budr priodol</u></p>	<p><u>I ddiogelu'r amgylchedd drwy sicrhau nad yw llifoedd carthion y tu hwnt i gapasiti seilwaith carthffosiaeth</u></p>
<p><u>Defnyddio adnoddau dŵr yn gynaliadwy</u></p>	<p><u>I sicrhau bod mynediad at ddŵr glân yn cael ei gynnal a'i ddiogelu</u></p>
<p><u>Darpariaeth ar gyfer Creu Lleoedd</u></p>	<p><u>I warchod a gwella nodweddion, cymeriad a phriodoleddau adeiledig, naturiol a diwylliannol Parc Cenedlaethol Eryri sy'n gwneud ei gymunedau, ei aneddiadau a'i dirweddau'n wahanol ac yn arbennig</u></p>
<p>Darpariaeth mesurau i leihau, <u>gwneud iawn neu lliniaru</u> perygl llifogydd.</p>	<p>I <u>ddiogelu</u> alluogi datblygiadau newydd a thir cyfaog mewn mannau sy'n tueddu i gael llifogydd</p>